

Awdurdod Cynllunio Caerdydd

ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017



make the
difference | gwnewch
wahaniaeth



ACLI Caerdydd

ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNLLUNIO (ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL) – 2017-18

RHAGAIR

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n chwarae rôl allweddol wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor fel y'u nodir yn 'Uchelgais Prifddinas', sef rhaglen polisi'r Weinyddiaeth am y bum mlynedd nesaf sy'n nodi: "Mae'r Weinyddiaeth hon yn ymrwymedig i sicrhau bod Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn, bod cymunedau hen a newydd yn cael eu cynllunio a'u cysylltu'n dda a bod ei seilweithiau a'i gwasanaethau cyhoeddus yn addas nawr ac yn y dyfodol".

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf ar ôl mabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016, gan weithredu fframwaith statudol er mwyn helpu i sicrhau a rheoli'n effeithiol dwf yn y dyfodol un o ddinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU.

Rwy'n arbennig o falch bod gweithgarwch datblygu yn y ddinas yn parhau i fynd rhagddo ac yn darparu nodau ac amcanion y CDLI. Mae hyn yn amrywio o ddatblygiadau swyddfa Gradd A sydd o arwyddocâd cenedlaethol (gan gynnwys Pencadlys newydd y BBC) yng Nghanol y Ddinas tuag i ddatblygiad safleoedd strategol o gwmpas y ddinas yn dilyn y dull uwchgynllunio a chynllunio seilwaith a fynegwyd yn y CDLI. Mae llwyth achosion cyffredinol y Rheolwyr Datblygu yn parhau i fod ar lefelau uchel ac mae'r Gwasanaeth yn prosesu'r nifer uchaf o geisiadau cynllunio yng Nghymru o gryn dipyn.

Yn y drydedd flwyddyn hon o'r broses Adolygiad Perfformiad Blynyddol, rwyf wedi fy nghalonogi bod y Gwasanaeth Cynllunio'n parhau i esblygu ac ymateb i bwysau newydd. Mae amrywiaeth eang o fentrau rheoli perfformiad a gwella wedi'u gweithredu yn seiliedig ar gyflwyno Cynllun Busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn dilyn yr AMB agoriadol. Bydd y broses hon yn parhau i symud ymlaen er mwyn helpu i wneud rhagor o welliannau, datblygu mwy o gadernid ariannol, rheoli risgiau a nodwyd a cheisio datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n manteisio i'r eithaf ar yr adnodd staff brwdfrydig a thalentog, a hynny mewn modd effeithiol.

Y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Y Cynghorydd Keith Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

CYNNWYS

1.1 Trosolwg

Caerdydd yw prifddinas Cymru a chanolfan economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Hi yw'r ddinas graidd sy'n tyfu gyflymaf o ran canran yn y DU, gyda phoblogaeth bresennol o 361,468. Mae tua 80,000 o bobl yn teithio i'r ddinas bob dydd gan adlewyrchu poblogaeth o 1.5 miliwn ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyffredinol.

Felly, mae gan y Gwasanaeth Cynllunio rôl hanfodol i'w chwarae wrth bennu'r fframwaith polisi i reoli'r twf hwn, gan weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill ar ddimensiynau trawsffiniol, darparu

gwasanaeth Rheoli Datblygu effeithlon i gyflwyno datblygiadau priodol yn gyflym a hefyd cymryd rôl arweiniol yn yr agenda Creu Lleoedd drwy sicrhau'r ansawdd uchaf posib mewn datblygiadau newydd.

1.2 Cefndir cynllunio

Mabwysiadwyd CDLI Caerdydd ym mis Ionawr 2016 ac mae'n chwarae rôl allweddol o ran rheoli twf yn y dyfodol. Mae'r Cynllun yn nodi sut y gall yr angen ar sail tystiolaeth am gartrefi a swyddi newydd gael ei fodloni mewn dull cynaliadwy sy'n parchu ansawdd amgylcheddol y ddinas. Nodwedd bwysig arall yw ei fod yn gosod fframwaith cynhwysfawr i reoli'r twf trwy sicrhau bod seilwaith cymdeithasol, cymunedol a thrafnidiaeth yn cael ei gyflwyno fesul cam gyda manylion uwch-gynllunio ar gyfer pob Safle Strategol wedi'u sefydlu yn y Cynllun.

O ran cyfradd y twf yn y Cynllun, gwneir darpariaethau i gyflwyno rhyw 45,415 o gartrefi newydd yng nghyfnod y Cynllun (2006-2026) gyda dros hanner yn cael eu darparu ar safleoedd tir llwyd. Nodwyd wyth o Safleoedd Strategol i helpu i ddarparu ar gyfer y twf, yn amrywio o Ardal Fusnes gyffrous Canol Caerdydd yng nghanol y ddinas i bum safle tir glas ar gyfer tai yn bennaf, gyda chyfanswm o ryw 13,000 o gartrefi newydd gyda fframweithiau uwch-gynllunio yn nodi manylion seilwaith a defnydd arall i gefnogi hyn.

Mae'r Cynllun yn cynnwys Fframwaith Monitro arbennig o gynhwysfawr a ddefnyddir fel sail i adrodd yn flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys 107 o ddangosyddion monitro CDLI ynghyd â 26 o ddangosyddion arfarniad cynaliadwyedd. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, cymeradwywyd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) cyntaf y CDLI gan y Cabinet ym mis Medi 2016 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref. Yn galonogol, mae canfyddiadau cyffredinol yr Adroddiad AMB yn gadarnhaol ar y cyfan. Yn bwysig, mae gwaith parhaus yn dangos ymateb cadarnhaol i feysydd lle y mae angen rhagor o sylw ac ni cheir unrhyw dystiolaeth i awgrymu'r angen am adolygiad llawn neu rannol o'r CDLI yn ystod y cam cynnar hwn o weithredu.

Mae gwaith hefyd yn parhau ar ddiweddarau a pharatoi 30 o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Ategol ar amrywiaeth eang o bynciau a fydd yn gyson â'r fframwaith polisi a nodir yn y CDLI a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

1.3 Cyd-destun polisi corfforaethol

Mae gwaith y Gwasanaeth Cynllunio'n uniongyrchol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau fel y'u nodir yn 'Uchelgais Prifddinas', sef rhaglen bolisi'r Weinyddiaeth ar gyfer y bum mlynedd nesaf, a fydd yn uniongyrchol yn llywio Cynllun Corfforaethol nesaf y Cyngor.

Mae swyddogaethau'r Gwasanaeth Cynllunio felly wrth galon cyflwyno'r blaenoriaethau corfforaethol hyn sy'n cydnabod yr angen am lawer mwy o dwf, ond cyflwyno'r twf hwn mewn modd cynaliadwy sy'n cyfoethogi nodweddion byw ac ansawdd bywyd y ddinas. Dylid crynhoi rôl 'glasurol' y system gynllunio i gydbwysu buddiannau gwahanol a chyflwyno twf mewn modd rheoledig. Mae'r CDLI yn amlwg yn ymateb i'r cyd-destun hwn a bydd, gyda'r canllawiau ategol, yn rhoi'r fframwaith angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn.

1.4 Dylanwadau mawr ar ddefnydd tir nawr ac yn y gorffennol

Ffynnodd Caerdydd yn ystod oes Fictoria ar gefn y diwydiant glo a'r diwydiannau cysylltiol yng nghymoedd y de. Arweiniodd hyn at godi cyfleusterau dociau yn ne'r ddinas, gyda'r rhain yn dwyn yn eu sgil ddiwydiannau ffyniannus a busnesau mewnfario/allfario. Datblygodd canol y ddinas ryw filltir i'r gogledd ar yr un pryd, a hyn yn adlewyrchu'r cyfoeth a'r hyder newydd. Yn yr oes Edwardaidd cafwyd mwy o enghreifftiau o falchder dinesig gyda datblygu Canolfan Ddinesig Parc Cathays, creu parciau helaeth a 'filas' moethus yn y maestrefi newydd, a hefyd ardaloedd mawr o dai teras ar gyfer gweithwyr o fewn dwy filltir o ganol y ddinas.

Parhau i ymledu tuag allan wnaeth y ddinas gyda maestrefi newydd yn cael eu datblygu; cyfuniad o stadau cyngor wedi'r rhyfel, ac estyniadau trefol newydd preifat. Fodd bynnag, yn dilyn dirywiad y diwydiant glofaol yn y cymoedd a'r effeithiau cysylltiedig ar y dociau a'r diwydiannau cysylltiedig, cafwyd cryn adfywio ym Mae Caerdydd a'r cyffiniau. Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ym 1987 a bu ar flaen y gad gyda rhaglen enfawr o adfywio gan gynnwys Morglawdd Bae Caerdydd. Creodd hyn lyn dŵr croyw newydd, sydd erbyn hyn yn ganolbwynt i amrywiaeth o gynlluniau ailddatblygu a ddigwyddodd yn yr ardal. Heddiw, mae Bae Caerdydd yn gyrchfan ymwelwyr lwyddiannus fyd-eang, ac yn y Bae y mae Llywodraeth Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru yn ogystal â llawer iawn o swyddfeydd a fflatiau.

Mae gwaith adfywio sylweddol Bae Caerdydd wedi'i ategu gan ddatblygiad pellach Canol y Ddinas, lle y mae nifer o brosiectau mawrion wedi bod gan gynnwys Stadiwm Mileniwm Cymru a Chanolfan Siopa Dewi Sant 2. Mae hyn wedi helpu i ddyrchafu Caerdydd i fod y 6ed canolfan fanwerthu gorau yn y DU a dod yn 'brifddinas ddigwyddiadau' sydd ag enw da yn fyd-eang fel y tystiolaethir drwy Gwpan Rygbi'r Byd 2015 a chynnal Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn 2017. Mae Canol y Ddinas a'r Bae felly yn parhau i fod yn brif leoliadau ar gyfer swyddfeydd ac mae cynigion presennol ar gyfer Cyfnewidfa Drafnidiaeth newydd mewn Sgwâr Canolog wedi'i aildatblygu, gan gynnwys Pencadlys newydd y BBC a gofod swyddfa Gradd A arall, yn cynrychioli'r bennod nesaf yn hanes llwyddiant Canol y Ddinas.

1.5 Tirwedd a lleoliad hanesyddol

Gorwedda ardal drefol Caerdydd yn erbyn cefndir tirwedd diffiniedig, gydag Aber Afon Hafren i'r de, a bryniau a chribau amlwg tua'r gorllewin a'r gogledd. Mae'r cefn gwlad o werth tirweddol a bioamrywiaeth uchel, gyda Mynydd Caerffili yn 'gefndir gwyrdd' cryf ac amlwg i'r ddinas. Yn wrthygyferbyniol i hyn, mae ymylon dwyreiniol y ddinas yn rhan o uned tirwedd ehangach o lawer o 'wastadeddau' isel, ardal wastad a adfeddiannwyd y tu ôl i Fur y Môr. Mae pedwar coridor sylweddol agored yn seiliedig ar afonydd Elái, Taf, Rhymni a Nant Fawr yn 'fysedd' o dir hygrych, cyhoeddus i raddau helaeth, sy'n rhedeg trwy'r ardaloedd trefol ac sy'n gyswllt i'r cefn gwlad tu hwnt.

Mae yn y ddinas 27 Ardal Gadwraeth ac yn agos i 1,000 o Adeiladau Rhestredig. Mae llawer o ardaloedd diddorol a oedd yn seiliedig o gwmpas canol yr hen bentrefi nawr yn rhan o'r ardal drefol; felly hefyd y dreftadaeth Fictoraidd ac Edwardaidd hynod gyfoethog.

1.6 Patrwm anheddiad

O ran ehangder daearyddol, mae Caerdydd yn weddol gyfyngedig, a'r ardal drefol sydd amlycaf. Fodd bynnag, mae darnau gwledig helaeth mewn rhai mannau rhwng y ffiniau anheddiad a gweinyddol, yn bennaf tua'r gogledd-orllewin a'r gogledd. Mae pentrefi Sain Ffagan, Creigiau a Phentyrch yn bentrefi yn eu hawl eu hunain o fewn ardaloedd gwledig o'r fath i'r gogledd-orllewin o'r ardal drefol.

1.7 Newid poblogaeth a dylanwad ar y CDLI

Mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer cyflwyno'r rhagamcanion swyddogol a hefyd yn adlewyrchu asesiad llawn o bob ffactor perthnasol gan gynnwys cymryd i ystyriaeth gyngor arbenigol annibynnol a gomisiynwyd cyn ac ar ôl y Strategaeth a Ffefrir. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r CDLI yn gwneud darpariaeth ar gyfer 45,415 o anheddau newydd i gwrdd â'r angen y mae tystiolaeth amdano. Yn bwysig iawn, mae'r lefel hon o dwf yn cyd-fynd yn llwyr â strategaeth y Cynllun ac yn cadw cydbwysedd priodol rhwng pob ffactor perthnasol.

GWASANAETH CYNLLUNIO

2.1 Strwythurau'r Sefydliad

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yng Nghyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, un o'r 5 Cyfarwyddiaeth isod sydd yn adrodd i'r Prif Weithredwr:

- Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
- Pobl a Chymunedau (gan gynnwys Tai a Chymunedau/ Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Datblygu Economaidd
- Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Adnoddau (gan gynnwys Digidol/Cyllid/AD/Llywodraethu a Chyfreithiol)

Mae Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn cynnwys amrywiaeth eang o swyddogaethau allanol gan gynnwys Trafnidiaeth, Priffyrdd, Seilwaith, Gwastraff, Ailgylchu, Ynni, Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestru.

Mae 3 Tîm yn y Gwasanaeth Cynllunio yn Neuadd y Sir, sy'n cael eu rheoli gan y Pennaeth Cynllunio, fel y gwelir yn y crynodeb isod:

- Polisi Cynllunio
- Rheoli Datblygu - Strategol a Chreu Lle
- Rheoli Datblygu - Anstrategol a Gorfodaeth

2.2 Gweithgareddau sefydliadol ehangach sy'n effeithio ar y Gwasanaeth Cynllunio

Nid yw'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i eithrio o'r pwysau ariannol ehangach a brofir gan y Cyngor ac Awdurdodau Lleol eraill. Mae nifer sylweddol o ddiswyddiadau wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf, a thua 20 o swyddi wedi'u dileu rhwng 2010-2015 er mwyn helpu i gyfrannu at yr arbedion gofynnol. Mae hyn wedi cael effaith amlwg ar gapasiti yn y Gwasanaeth a bod llawer o

bwysau o hyd ar Swyddogion ym mhob Tîm. Golyga hyn fod Swyddogion yn gweithio i'r eithaf heb unrhyw slac yn y system gan gynyddu'r tebygolrwydd o ddiffygion neu oedi.

Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gwnaethpwyd y defnydd gorau posib o'r aelodau staff. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn llwyth gwaith sydd yn ei dro yn cynhyrchu incwm ffioedd uwch ynghyd â chynllunio busnes mwy trylwyr a diwylliant o welliant ar draws y Gwasanaeth. Bwriadwyd y dull hwn i sicrhau bod y Gwasanaeth Cynllunio'n chwarae ei ran allweddol o ran cyflawni swyddogaethau statudol, gan sicrhau ymateb hyblyg ac ystwyth i gydbwysu gofynion llwyth gwaith o ran yr aelodau staff.

2.3 Cyllideb weithredol

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hynod heriol o ran bodloni targedau arbedion. Fodd bynnag, drwy gyfuniad o leihau niferoedd staff (fel y crynhoir yn yr adran uchod), gostyngiadau cyllideb gwasanaeth a mwy o incwm ffioedd, mae'r lefel ofynnol o arbedion wedi'i chyflawni'n gyson.

Yn y gorffennol, mae bwlch sylweddol wedi bod rhwng gwariant ac incwm y Gwasanaeth Cynllunio gan fod yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r Gwasanaeth wedi costio llawer mwy na'r incwm a gynhyrchwyd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon wedi gwella'n sylweddol yn ystod 2016/17. Yn galonogol, gweithredodd y Gwasanaeth Cynllunio ar lefel lle'r oedd cyfanswm costau gwariant wrth gyflawni pob agwedd ar y Gwasanaeth (tua £2.7 miliwn) bron iawn yn cyfateb i'r holl incwm a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Cynllunio (tua £2.6 miliwn). Ystyrir hyn yn gyflawniad gwych ac yn safle gwaelodlin cryf wrth edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod.

Mae incwm ffioedd cynllunio wedi amrywio'n dra sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, yn ystod y dirwasgiad economaidd a'r adferiad araf rhwng 2008/09 - 2012/13, arhosodd yr incwm ffioedd rhwng £1.2 - £1.4 miliwn. Mae'r gwelliant mewn incwm ffioedd cynllunio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn adlewyrchu gwell amodau economaidd, cyfraddau incwm ffioedd gwell ar gyfer hydref 2015 a hefyd y sicrwydd datblygu a ddarparwyd gan y CDLI ynghyd â'r dull galluogi a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth. Cynyddodd incwm ffioedd i bron £1.5 miliwn yn 2013/14, £1.86 miliwn yn 2014/15, £1.92 miliwn yn 2015/16 a £2.34 miliwn yn 2016/17. Mae ffigyrau y llynedd yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol gan fodloni'r targed incwm ffioedd a bennwyd ar gyfer 2016/17.

Er bod y cynnydd o 15% mewn ffioedd cynllunio a ddaeth i rym o fis hydref 2015 ymlaen, wedi cyfrannu'n rhannol at incwm gwell dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gofyn bod yn wylidwrus iawn o'r cymalau ad-dalu ffioedd a gynhwysir yn y Rheoliadau Ffioedd Cynllunio (2015) ynghyd â deialog /cytundeb â'r ymgeisydd i liniaru'r risg ariannol gynhenid. Mae mesurau newydd ar waith i reoli estyniadau amser yn ofalus yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae risgiau'n parhau, yn enwedig ynghylch ceisiadau mwy cymhleth, a allai gynnwys cyflwyno nifer o gynlluniau diwygiedig a/neu sbarduno Adran 106/ystyriaethau hyfywedd.

Rhoddir sylw hefyd i ffrydiau incwm ychwanegol posibl ac mae monitro ariannol hefyd yn cael gafael ar incwm a sicrheir drwy roi cyngor cyn cyflwyno cais a Chytundebau Perfformiad Cynllunio (CPCau) er y cydnabyddir y gellir rhannu rhywfaint o'r incwm hwn â Thimau eraill y tu allan i'r Gwasanaeth Cynllunio – gan adlewyrchu natur yr ymrwymiad adnoddau gofynnol.

Cynhelir cyfarfodydd misol i fonitro cyllidebau rhwng y Pennaeth Cynllunio, Cyllid Canolog a Chyfrifydd y Gyfarwyddiaeth gyda'r nod o fonitro ffigyrau blaenu misol yn erbyn yr hyn y rhagwelir y bydd yn cael ei wario o'r gyllideb. Y newidyn mawr dal i fod yw incwm ffioedd cynllunio. Mae gwelliannau wedi'u gwneud yn ystod 2016/17 wrth gasglu rhagor o wybodaeth am geisiadau posibl sydd ar y gweill fel bod penderfyniadau cyllidebol yn cael eu llywio gan y wybodaeth orau bosibl. Fodd bynnag, mae risg gynhenid yn parhau o ran bodloni targedau incwm efallai na fydd yn adlewyrchu'n fanwl gywir newidiadau yn y dyfodol yn amodau'r farchnad a ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar incwm ffioedd.

2.4 Materion staff

Ar hyn o bryd mae 52.5 swydd CALL yn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r mwyafrif helaeth o'r swyddi hyn yn rhai parhaol, wedi'u cyflogi ac o fewn y sefydliad ffurfiol, ond mae nifer fach ohonynt yn swyddi ar secondiad neu a ariennir ar sail rhan amser. Ymhellach, er mwyn bodloni llwythi gwaith yn y modd mwyaf effeithiol, bu angen diweddar i wella gweithio hyblyg rhwng timau a oedd yn ganlyniad proses Cynllunio Busnes y Gwasanaeth Busnes. Mae'r rhestr isod yn crynhoi'r swyddi ym mis Ebrill 2017:

- 3 Uwch Reolwr - Sef 1 Pennaeth Cynllunio a 2 Reolwr Gweithredol
- 3.5 Cynllunwyr Polisi Cynllunio – Swyddi ychwanegol cyfwerth â 3 Swyddog CLIA yn y Tîm sydd ar hyn o bryd yn cynnig cymorth hyblyg fel Swyddogion Achos Rheoli Datblygu Anstrategol
- 20.5 Swyddog Achos Rheoli Datblygu – y mae 5 ohonynt yn y Tîm Strategol, 3 yn amodol ar gyllid dros dro yn y Tîm Strategol, 8 yn barhaol yn y Tîm Anstrategol, cymorth hyblyg gan 4.5 Swyddog CLIA mewn Timau Polisi a Gorfodi
- 1.5 Swyddog Gorfodi – Swyddi ychwanegol cyfwerth â 1.5 Swyddog CLIA yn y Tîm sydd ar hyn o bryd yn cynnig cymorth hyblyg fel Swyddogion Achos Rheoli Datblygu Anstrategol
- 7 Cynlluniwr Tîm Creu Lle (Dylunio, Uwchgynllunio, Projectau, Ardoll Seilwaith Cymunedol/Hyfywedd/A106, Treftadaeth a Chadwraeth)
- 1 ecolegydd
- 1 Swyddog Coed
- 2 Gynorthwydd Cynllunio (Cofrestru/Dilysu DM, Tystysgrifau datblygu cyfreithiol, ymholiadau cynllunio cyffredinol, cefnogaeth apêl)
- .75 Swyddog GIS
- .8 Swyddog E-Lywodraeth/Adrodd am Berfformiad
- 1 Myfyriwr Gynllunydd
- 1.9 Swyddog Cofrestru
- 1 Swyddog Monitro a Gweinyddu Adran 106
- 7.5 cymorth technegol/gweinyddol – Cyflwyno hysbysiadau penderfynu, llunio llythyrau ymgynghori a ffeiliau cais newydd, rheoli gwefan yn ddyddiol (gan gynnwys golygu/cyhoeddi pob sylw ar geisiadau), ymholiadau chwilwyr, pwynt cyswllt cyntaf i gwsmeriaid a chydlynu ymatebion i gwynion
- CYFANSWM o 52.5 CLIA

Mae'n galonogol bod rhywfaint o welliant wedi bod i lefelau staffio yn 2016/17. Mae adnodd ychwanegol cymedrol wedi sicrhau swydd newydd o fewn y Tîm Creu Lle oedd a 2 Swyddog Achos

DM dros dro ar gyfer y flwyddyn i ddod yn y Tîm Strategol. Bydd incwm a geir drwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio (CPCau) yn ystod y flwyddyn yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn ceisio sicrhau bod lefelau staffio priodol yn cael eu cynnal yn ogystal â rhoi ystyriaeth i oblygiadau adnoddau Gwasanaethau allweddol eraill sy'n uniongyrchol yn cefnogi gweithredu'r Gwasanaeth Cynllunio. Yn yr un modd, caiff gofynion llwyth gwaith ehangach Swyddogion sy'n gweithio'n hyblyg ar hyn o bryd i gyflawni rôl Swyddog Achos DM yn ychwanegol at ddyletswyddau o fewn eu timau craidd, eu monitro a'u rheoli yn ystod y flwyddyn i sicrhau y cyflawnir cydbwysedd derbyniol.

Mae Swyddogion yn parhau i fod yn frwd ac yn ymroddedig i roi'r gwasanaeth gorau oll i gwsmeriaid. Mae cyfraddau salwch yn isel iawn ac yn is o lawer na chyfartaledd y Gyfarwyddiaeth a'r Cyngor. Mae perfformiad unigol yn cael ei fonitro'n ffurfiol trwy'r broses 'Adolygiad Datblygiad a Pherfformiad Personol' ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae disgwyliadau perfformio yn cael eu gosod drwy hon, yn cael eu hadolygu'n ffurfiol wedi 6 mis a'u diweddarau bob blwyddyn.

EICH STORI LEOL

3.1 Llwyth gwaith: Polisi Cynllunio

Mae mabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016 yn garreg filltir bwysig mewn polisi cynllunio - cymeradwywyd y Cynllun Lleol blaenorol bron 20 mlynedd yn ôl. Felly bydd ymdrechion nawr yn canolbwyntio ar gyflwyno'r Cynllun (gan gynnwys paratoi'r Canllawiau Cynllunio Ategol) ynghyd â bodloni'r gofynion monitro a fydd yn helpu i lywio'r broses adolygu Cynllunio yn y dyfodol. Gellir crynhoi'r prif feysydd gwaith fel a ganlyn:

- Cydlynu'r gwaith o gyflwyno rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Ategol newydd i gefnogi'r CDLI – Mae rhaglen dreigl yn cynnwys cyfrannau gwahanol o tua 30 o Ganllawiau Cynllunio Ategol i gyd yn cael eu paratoi, eu hymgyngori arnynt a'u cymeradwyo
- Ymwneud â'r broses Cynllun Datblygu Strategol (CDS) newydd - Fel sbardun economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, bydd Caerdydd am chwarae rhan weithredol ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, yn y pen draw dan gyfarwyddyd Panel CDS
- Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLI – Caiff yr AMB cyntaf yn darparu data ar 107 o ddangosyddion CDLI a 26 o ddangosyddion Arfarniad Cynaliadwyedd, ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017
- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Tai i nodi'r galw am safle/safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd i gwrdd â'r galw yn unol â gofynion yr AMB a'r Ddeddf Tai
- Paratoi'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir Tai blynyddol
- Monitro defnydd tir
- Darparu cyngor cynllunio ar geisiadau cynllunio
- Darparu swyddogaeth Cynllunio Mwynau'r Cyngor
- Gweithio ar brosiectau ar draws Gwasanaethau ynghylch 'chwiliadau tir', gwaredu tir a mentrau adfywio
- Helpu i ymateb i alwadau baich gwaith a fydd yn deillio o'r project Pŵer Lagŵn Llanw arfaethedig rhwng Caerdydd a Chasnewydd

Yn gyffredinol, mae hyn yn faich gwaith heriol i Dîm bychan. Fodd bynnag, mae'r Tîm bellach wedi'i lleoli ar y cyd â gweddill y Gwasanaeth Cynllunio. Mae hyn wedi creu cyfleoedd ar gyfer

cysylltiadau mwy effeithiol gyda Thimau eraill yn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r broses Cynllunio Busnes wedi nodi sut y gall gwahanol Dimoedd o fewn yr Adran weithio'n fwy hyblyg. Yn rhan o'r broses hon, daeth blaenoriaeth glir i'r amlwg o ran ystyried lledaenu llwyth gwaith y Rheolwyr Datblygu yn ehangach ac ystyried gwelliannau yn y modd y gwneir sylwadau mewnol ar geisiadau. Felly mae swyddogion o fewn y Tîm Polisi bellach yn cyflawni llwyth gwaith Rheoli Datblygu er mwyn 'lledaenu'r baich' yn fwy effeithiol ar draws y Gwasanaeth. Mae swyddogion yn y Tîm Rheoli Datblygu wedi helpu drwy roi arweiniad a darparu 'gwasanaeth cyfeillio' fel y dull newydd a ymgorfforir a Rheolwyr yn goruchwylio llif gwaith o ran gofynion ehangach ac yn cynnig cyngor cefnogol.

3.2 Llwyth gwaith: Rheoli Datblygu a Gorfodi

Caerdydd sy'n penderfynu ar y nifer uchaf o geisiadau cynllunio yng Nghymru. Yn ystod 2016/17, daethom i benderfyniad ynghylch 2,819 o geisiadau cynllunio. Mae'r baich gwaith hwn yn cael ei reoli gan Swyddogion Achos ar draws 2 Dîm gyda cheisiadau mawr yn cael eu rheoli yn y Tîm Rheoli Datblygu Strategol a Chreu Lle ac eraill yn y Tîm Rheoli Datblygu Anstrategol. Mae nifer y ceisiadau a bennir gan Swyddogion Achos unigol yn amrywio'n fawr gan adlewyrchu'r gwahaniaethau enfawr rhwng cymhlethdodau ystyried ceisiadau mawr megis estyniadau trefol ar un pegwn i'r raddfa, a chynigion aelwydydd ar y pegwn arall. Fel y nodir yn Adran 3.1 uchod, mae rhywfaint o'r llwyth achos deiliaid cartrefi a masnachol anstrategol bellach yn cael ei reoli gan Swyddogion yn y Tîm Polisi i helpu i ymdopi â gofynion llwyth gwaith yn fwy effeithiol.

Mae Swyddogion Achos felly yn pennu hyd at ryw 300 o geisiadau y flwyddyn gyda'r rhai sy'n bwrw ymlaen gyda cheisiadau mawr yn pennu llai o lawer. Mae cefnogaeth ehangach o'r tu mewn i'r Gwasanaeth i helpu Swyddogion Achos yn eu swyddi hefyd yn hanfodol i brosesu ceisiadau megis darparu cyngor arbenigol ar faterion megis dylunio a pholisi. Yn bwysig iawn, mae'r Swyddogion Gweinyddu hefyd yn chwarae rhan allweddol oherwydd bod swm enfawr y ceisiadau sy'n cael eu prosesu yn mynnu bod systemau effeithiol ar gael i gadw ceisiadau i lifo'n llyfn trwy'r system a diweddarau'r gwaith o dracio ceisiadau yn rheolaidd ar y wefan.

O edrych ymlaen, gyda mabwysiadu'r CDLI yn gosod strategaeth i gyflwyno lefel uchel o dwf, gwell hyder yn y farchnad, ac amrywiaeth eang o brosiectau tir glas a thir llwyd a all fod ar y gweill, rhagwelir y bydd nifer y ceisiadau a gyflwynir yr un fath â'r ddwy flynedd ddiwethaf. Yn y cyd-destun hwn, rhagwelir y bydd cynnydd mewn ceisiadau mawr, gyda'u graddfa a'u cymhlethdod yn anochel yn estyn yr amser a gymerir i'w pennu, yn enwedig o ystyried dimensiwn Adran 106. Ymhellach, gall ceisiadau mawr (yn enwedig y rhai sy'n tanio'r Rheoliadau AEA) yn aml esgor ar gostau sylweddol i'r Gwasanaeth o ran rhybuddion hysbysebu.

Mae llwyth gwaith sylweddol a chynyddol nad yw'n cael ei gyfleu drwy ystadegau yn codi yn sgil deialog wedi'r penderfyniad gyda phartion sydd wedi'u tramgwyddo ac sydd â phroblemau naill ai gyda'r penderfyniad a/neu y broses o ddod i'r penderfyniad. Gall y rhain yn fuan iawn droi'n achosion cymhleth sy'n cymryd amser, gydag Aelodau Lleol yn dod yn rhan o'r peth, gweithdrefn gwyno ffurfiol a galw am sylw Swyddogion ar bob lefel.

Mae ymchwiliadau gorfodaeth yn cynhyrchu baich o ryw 500 o achosion y flwyddyn. Mae'r Tîm Gorfodi wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gyda 3 o Swyddogion ar hyn o bryd yn rhannu eu hamser rhwng ymchwiliadau gorfodaeth ac fel swyddogion achos rheoli datblygu.

Mae llawer o'r gwaith yn golygu adweithio i gwynion ac arsylwadau a dderbyniwyd, ond y mae gwaith/ymchwiliadau rhagweithiol hefyd yn cael eu gwneud pan fydd pwysau gwaith arall yn caniatáu.

3.3 Llwyth gwaith: Creu Lleoedd

Mae'r Tîm Creu Lleoedd yn cyflwyno amrywiaeth eang o swyddogaethau cynllunio statudol ac anstatudol ac mae'n cynnwys arbenigedd mewn meysydd megis dylunio trefol, uwch-gynllunio, cadwraeth yr amgylchedd adeiledig a naturiol, a rheoli projectau.

Mae'r Tîm yn ymwneud llawer â chefnogi cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd trwy baratoi a gweithredu polisi cynllunio yn ogystal â pharatoi gwaith cefndir o ran egwyddorion uwch-gynllunio a chynllunio seilwaith er mwyn sicrhau bod lefel y twf cynlluniedig yn cyflwyno cymdogaethau integredig, dymunol i fyw ynddynt a fydd yn llesol i'r cymunedau presennol a rhai newydd.

Hefyd, mae'r Tîm yn cefnogi'r swyddogaeth Rheoli Datblygu trwy roi cyngor arbenigol ar ddylunio, cadwraeth ac ecoleg ar gyfer ceisiadau cynllunio cyfredol gan gynnwys datblygiadau mawr ar dir llwyd ac estyniadau trefol sylweddol. Mae'r gwaith hwn yn golygu cydweithio agos gyda Rheoli Datblygu ac ystod eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.

Mae'r Tîm hefyd yn arwain ar yr ymagwedd tuag at Gytundebau Adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Nod y gwaith hwn yw ceisio mesurau lliniaru priodol o ran cynigion datblygu gan gynnwys darparu seilwaith gefnogol angenrheidiol. Mae ystyried ffactorau hyfywedd yn agwedd bwysig ar y gwaith hwn, gan fod angen cefnogaeth y Prisiwr Rhanbarthol yn aml wrth asesu unrhyw adroddiadau hyfywedd a gyflwynir. Caiff canllawiau pellach eu paratoi o ran Cytundebau Adran 106, ond cyn datblygu Ardoll Seilwaith Cymunedol i Gaerdydd disgwylir am ystyriaethau Llywodraeth Cymru ar sut y gellir cymhwyso ASC yng Nghymru, pan gaiff y swyddogaeth ei datganoli i Gymru yn 2018.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddarau ac adolygu nifer o Ganllawiau Cynllunio Ategol yn y Tîm yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

Mae mentrau eraill hefyd yn cael eu cyflwyno gan y Tîm Creu Lleoedd gan gynnwys Rhaglen Gwella Treftadaeth Caerdydd, arolygon Adeiladau mewn Perygl, a pharatoi uwchgynlluniau a briffiau datblygu ar gyfer safleoedd ac ardaloedd penodol y ddinas, yn aml drwy gysylltu â Gwasanaethau eraill.

3.4 Pwysau lleol

Ar draws y Gwasanaeth Cynllunio yn gyffredinol, yr her allweddol yw sut i reoli gofynion a disgwyliadau llwyth gwaith cymhleth yn effeithiol yng nghyd-destun adnoddau sydd wedi crebachu dros y blynyddoedd diwethaf. Yn gysylltiedig â hyn mae swm mawr y ceisiadau sy'n cael eu prosesu, ynghyd â nifer fawr o gynigion datblygu mawr a chymhleth. O gofio'r pwysau ariannol difrifol, mae'r gallu i gynyddu'r sefydliad wedi ei gyfyngu'n arw, felly bydd yr agwedd newydd tuag at wella perfformiad fel y nodir yng Nghynllun Busnes y Gwasanaeth Cynllunio yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r adnoddau presennol ynghyd ag ymchwilio i'r gallu i dynnu ar adnoddau ychwanegol mewn modd hyblyg yn ôl yr angen.

Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys amrywiaeth eang o fesurau gwella sydd wedi'u nodi yn yr adran ganlynol ac sy'n crynhoi'r dull o fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y Gwasanaeth Cynllunio'n gweithredu o fewn amgylchedd sy'n newid yn gyson, lle y gall blaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg yn gyflym.

Yr ydym yn cydnabod felly bod yn rhaid i'r ymateb mwyaf effeithiol ganiatáu am beth hyblygrwydd a'r gallu i ymateb i gyfleoedd neu heriau. Bydd yr agwedd newydd felly yn gosod fframwaith yn ei le sy'n rhoi cyfeiriad strategol ond a fydd hefyd yn esblygu fel bod adolygiadau blynyddol o'r Cynllun Busnes yn cael eu hadeiladu i mewn i'r broses.

Mae'r amrywiaeth o fesurau gwella sy'n cael eu datblygu fel yr amlinellir yn Adran 3.5 yn dangos awydd cryf i wella perfformiad yn yr amgylchedd hwn, ond nid oes modd tanbrisiu maint yr her na'r gallu i esgor ar ganlyniadau yn syth. Felly, mae pwyslais cryf ar roi mesurau rheoli perfformiad mwy effeithiol ar waith fel, dros amser, fod y lefel gywir o wybodaeth fanwl a chyfoes ar gael yn rhwydd fel sail i benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch adnoddau a blaenoriaethau baich gwaith.

3.5 Gwella'r Gwasanaeth

Arweiniodd cyfuniad o ffactorau gan gynnwys y pwysau a amlinellwyd uchod at ddatblygu agwedd o'r newydd tuag at wella'r Gwasanaeth Cynllunio.

Mae'r newidiadau diweddar i'r System Gynllunio yng Nghymru wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaeth a pherfformiad gwell, fel sy'n briodol. Mae hyn yn asio gyda monitro perfformiad a mesurau rheoli gwell, gyda'r broses APB gychwynnol nawr yn sicrhau trafodaeth ledled Cymru ynghylch y modd y gellir cynnal gwelliannau dros amser. Wrth i adnoddau a chapasiti barhau i fod dan bwysau eithriadol a galwadau/disgwyliadau barhau i godi, mae mwy o angen i reoli adnoddau a gwneud y mwyaf ohonynt, a gwelliant parhaus yw'r allwedd i gyrraedd yr amcan hwn.

Mae'r broses Cynllunio Busnes ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio (Ebrill 2016) yn allweddol wrth helpu i gydbwysu blaenoriaethau llwyth gwaith bob blwyddyn ochr yn ochr â gofynion llwyth gwaith. Mae'n gosod fframwaith a ddefnyddir fel sylfaen i asesu perfformiad yn flynyddol ac ystyried y mesurau gwella pellach mwyaf priodol a champau eraill a ystyrir yn angenrheidiol i sicrhau y gall y Gwasanaeth Cynllunio gyflawni ei swyddogaethau yn llwyddiannus yn y blynyddoedd i ddod.

Mae gan y Cynllun Busnes weledigaeth, mae'n pennu swyddogaethau craidd, yn amlinellu adnoddau a chwsmeriaid, yn tynnu sylw at brif gyflawniadau a pherfformiad cyffredinol yn cynnwys dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) ac yn cynnwys Blaenoriaethau Cynllunio a Gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd adolygiadau blynyddol yn nodi cynnydd a pherfformiad ar gyfer y dyfodol, a chanlyniadau yn erbyn dangosyddion a drafodir yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn hefyd yn helpu i lywio'r broses cynllunio busnes flynyddol.

Mae'n galonogol gweld bod y mesurau gwella a sbardunwyd gan broses y Cynllun Busnes eisoes wedi arwain at welliannau mewn perfformiad. Fodd bynnag, mae hefyd angen bod yn ofalus oherwydd bydd capasiti cyfyngedig yr adnoddau sydd eu hangen i symud ymlaen gyda'r holl gamau gwella a nodwyd (hynny yw, y galwadau o ran llwyth gwaith) yn anochel yn golygu na fydd hi'n bosibl symud yr holl gamau yn eu blaen o fewn cyfnod byr o amser. Bydd y broses adolygu flynyddol yn ein helpu i fesur cynnydd a nodi camau gweithredu pellach sydd â'r flaenoriaeth uchaf.

3.6 Fframwaith Perfformiad

Mae dadansoddi perfformiad yn erbyn y dangosyddion a nodir yn y Fframwaith Perfformiad wedi helpu i fod yn sail wybodaeth i'r amrywiaeth o fesurau sydd yn yr Adran uchod. Hefyd, darperir sylw byr ar gyfer pob dangosydd yn yr Adran Fframwaith Perfformiad gan gynnwys gwybodaeth gyd-destunol fel rhan o'r ymateb.

Ar y cyfan, ystyrir y canlyniadau'n galonogol ac mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Yn gyson yn perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ym mhob un o'r saith ffactor a ddefnyddir yn yr Arolwg Boddhad Cwsmeriaid a ddangosir yn Nhabl 1;
- 84% o'r holl geisiadau yn cael eu pennu o fewn yr amserlenni gofynnol, sy'n well na'r targed ar gyfer Cymru;
- Cyfnodau byrrach i ddod i benderfyniad ar bob math o geisiadau o'i gymharu â'r llynedd;
- CDLI a fabwysiadwyd yn ddiweddar ar waith gyda rhaglen gynhwysfawr o Ganllawiau Cynllunio Ategol yn cael ei datblygu'n weithredol a'r AMB Cyntaf yn barod i'w gyflwyno ym mis Hydref 2017;
- Canran isel (3%) o benderfyniadau Aelodau yn mynd yn groes i gyngor gan Swyddogion a dim costau'n cael eu dyfarnu yn erbyn y Cyngor ar gyfer apeliadau;
- Defnydd cynyddol o'r wefan i gael gafael ar y gwasanaeth cynllunio ar-lein a gwe-ddarlledu'r Pwyllgor Cynllunio yn effeithlon;
- Gwasanaeth Cynllunio effeithlon wrth gymharu adnodd y Swyddogion Achos â nifer y ceisiadau y deuir i benderfyniad arnynt (uchaf yng Nghymru o bell ffordd); a
- Pherfformiad gorfodi yn well na chyfartaledd Cymru o bell ffordd;

BARN DEFNYDDWYR GWASANAETH

Yn 2016-17 cynhaliwyd arolwg boddhad cwsmeriaid gyda'r nod o asesu barn pobl a gafodd benderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd yr arolwg at 622 o bobl. Cyflwynodd 7% ohonynt ymateb llawn neu rannol. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion (65%) gan asiantau lleol. Daeth 12% gan aelodau o'r cyhoedd. Cafodd cais cynllunio diweddaraf 2% o'r ymatebwyr ei wrthod.

Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau am y gwasanaeth cynllunio. Rhoddwyd y dewisiadau isod o ran atebion:

- Cytuno'n gryf;
- Tueddu i gytuno;
- Heb gytuno nac anghytuno;
- Tueddu i anghytuno; ac
- Anghytuno'n gryf.


Dengys Tabl 1 ganran yr ymatebwyr a ddewisodd naill ai 'tueddu i gytuno' neu 'cytuno'n gryf' ar gyfer pob gosodiad am ein hawdurdod cynllunio ni a Chymru.

Tabl 1: Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â phob gosodiad, 2016-17

Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno:	%	
	ACLI Caerdydd	Cymru
Bod yr ACLI yn gorfodi eu rheolau cynllunio yn deg a chyson	69	52
Bod yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	72	62
Bod yr ACLI yn rhoi help trwy'r adeg, gan gynnwys gydag amodau	65	52
Bod yr ACLI yn ymateb yn brydlon pan oedd ganddynt gwestiynau	68	61
Bod eu cais wedi cael gwrandawriad	67	59
Eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu cais	60	51
Eu bod yn fodlon ar sut deliodd yr ACLI â'u cais	75	61

Gwnaethom hefyd ofyn i ymatebwyr ddewis tair nodwedd o'r gwasanaeth cynllunio o restr a fyddai, yn eu barn hwy, yn eu helpu fwyaf i gael datblygiadau llwyddiannus. Mae Ffigur 1 yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd bob nodwedd fel un o'u tri dewis. I ni, 'derbyn cyngor cyson gan swyddogion' oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

Ffigwr 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, ACLI Caerdydd, 2016-17



Roedd y canlynol ymysg y sylwadau a gafwyd:

- “Mae Caerdydd wedi darparu adran gynllunio lwyddiannus ac effeithlon dros y deng mlynedd ar hugain neu fwy yr wyf wedi gweithio fel pensaer, o’i mesur yn erbyn ACLlau eraill ar draws y DU.”
- “Da iawn wir a bob amser yn ddefnyddiol.”
- “Mae’n ymddangos bod y swyddogion cynllunio bob amser dan bwysau, gan fod ganddynt ormod o achosion. Mae hyn yn arafu’r broses gwneud penderfyniadau oni bai bod rhywun yn gyson yn mynd ar drywydd ceisiadau.”

EIN PERFFORMIAD 2016-17

Mae'r adran hon yn nodi manylion ein perfformiad yn 2016-17. Mae'n ystyried dangosyddion y Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data arall sydd ar gael i helpu i greu darlun cynhwysfawr o berfformiad. Lle y bo'n briodol rydyn ni'n gwneud cymariaethau rhwng ein perfformiad a darlun Cymru gyfan.

Mae perfformiad yn cael ei ddadansoddi ar draws y pum agwedd allweddol ar y gwasanaeth cynllunio fel y nodir yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Creu cynllun;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; a
- Gorfodi.

Creu cynllun


Ar 31 Mawrth 2017, roeddem ni'n un o 22 ACLI oedd â chynllun datblygu cyfredol ar waith.

Yn ystod cyfnod yr APB nodwyd gwerth 3.8 mlynedd o dir sydd ar gael ar gyfer tai, sy'n golygu ein bod ni'n un o'r 19 ACLI yng Nghymru heb y cyflenwad gofynnol o 5 mlynedd.

Effeithlonrwydd

Yn 2016-17 gwnaethom benderfynu ar 2819 o geisiadau cynllunio; pob un yn cymryd 70 diwrnod (10 wythnos) ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 76 diwrnod (11 wythnos) ledled Cymru. Mae ffigur 2 yn dangos yr amser cyfartalog a dreulir gan bob ACLI i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.


Ffigur 2: Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i bennu pob cais mewn diwrnodau, 2016-17



Penderfynwyd ar 84% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd hyn yn cymharu â 87% ar draws Cymru a ni oedd un o'r 20 ACLIau a fodlonodd y targed o 80%.


Mae Ffigur 3 yn dangos canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen ofynnol ar draws y pedwar prif fath o gais i'n ACLI a Chymru. Mae'n dangos y penderfynom ar 91% o geisiadau perchentywyr o fewn yr amserlen ofynnol.

Ffigur 3: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol, fesul math, 2016-17



Rhwng 2015-16 a 2016-17, fel mae Ffigur 4 yn ei ddangos, cynyddodd canran y ceisiadau cynllunio y penderfynom arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 75%. Gwelodd Cymru gynnydd eleni hefyd.

Ffigur 4: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol




Dros yr un cyfnod:

- Gostyngodd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gennym; a
- Gostyngodd nifer y ceisiadau y daethom i benderfyniad arnynt.

Ceisiadau mawr

Penderfynom ar 65 o geisiadau cynllunio yn 2016-17 – roedd 8% (5 gais) yn amodol ar AEA. Cymerodd pob cais (gan gynnwys y rheini oedd yn amodol ar AEA) 338 diwrnod (48 wythnos) ar gyfartaledd i ddod i benderfyniad arnynt. Fel y mae Ffigwr 5 yn dangos, roedd hyn yn hirach na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 250 o ddiwrnodau (36 o wythnosau).


Ffigwr 5: Yr amser cyfartalog (diwrnodau) a dreuliyd yn dod i benderfyniad ar gais mawr, 2016-17



Daethpwyd i benderfyniad ar 31% o'r ceisiadau mawr hyn o fewn yr amserlenni cytunedig, sef y pumed ganran isaf o'r holl ACLlau.

Mae Ffigwr 6 yn dangos canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol, fesul math y cais mawr. Penderfynwyd ar 10% o'n ceisiadau mawr 'safonol', h.y. y rheini nad oedd angen AEA arnynt, o fewn yr amserlenni gofynnol o 8 wythnos.

Ffigwr 6: Canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn, fesul math, 2016-17




At hynny, penderfynom ar 58% o geisiadau mawr a oedd yn amodol ar CPA o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ers 2015-16, cynyddodd canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 27%. Yn yr un modd, cynyddodd nifer y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt yn ogystal â nifer y ceisiadau sy'n amodol ar AEA y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

Mae Ffigur 7 yn dangos tuedd o ran canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol mewn blynyddoedd diweddar a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.

Ffigur 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni



Dros yr un cyfnod:

- Cynyddodd canran y ceisiadau bach y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 84% i 87%;
- Cynyddodd canran y ceisiadau perchentywyr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 86% i 91%; a
- Chynyddodd canran y ceisiadau eraill y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 66% i 82%.

Ansawdd


Yn 2016-17, gwnaeth ein Pwyllgor Cynllunio 90 o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio, sef 3% o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt. Ledled Cymru, penderfynwyd ar 6% o'r holl geisiadau cynllunio gan bwyllgor cynllunio.

Aeth 3% o'r penderfyniadau hyn a wnaed gan aelodau yn erbyn cyngor y swyddog. Roedd hyn yn cymharu â 11% o'r penderfyniadau a wnaed gan aelodau ledled Cymru. Mae hyn yn cyfateb i 0.1% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a aeth yn erbyn cyngor y swyddog; 0.7% ledled Cymru.

Yn 2016-17 cawsom 39 o apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, sy'n cyfateb i 1.3 apêl fesul 100 o geisiadau. Ledled Cymru cafwyd 2 apêl fesul 100 cais.

Mae Ffigur 8 yn dangos bod swm yr apeliadau a gafwyd wedi newid ers 2015-16 a sut mae hyn yn cymharu â Chymru gyfan.


Ffigur 8: Nifer yr apeliadau a gafwyd fesul 100 cais cynllunio



Yn 2016-17, cymeradwyasom 93% o geisiadau cynllunio. Mae hyn yn cymharu â 91% ledled Cymru.

O'r 47 o apeliadau y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 60% ohonynt. Fel mae Ffigur 9 yn ei ddangos, roedd hyn yn is na chanran yr apeliadau a wrthodwyd ledled Cymru gyfan ac yn is na'r targed o 66%.

Ffigur 9: Canran yr apeliadau a wrthodwyd, 2016-17



Yn ystod 2016-17 ni chafodd unrhyw geisiadau costau mewn perthynas ag apêl adran 78 eu cynnal.

Ymgysylltu

Rydyn ni'n:

- un o 24 ACLI a ganiataodd i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio; ac yn
- un o 20 ACLI oedd â chofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio.

Fel mae Tabl 2 yn ei ddangos, cytunodd 72% o'r ymatebwyr i arolwg boddhad cwsmeriaid 2016-17 fod yr ACLI wedi rhoi cyngor da iddynt i'w helpu i wneud cais llwyddiannus.

Tabl 2: Adborth o arolwg boddhad cwsmeriaid 2016-17

Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno:	%	
	ACLI Caerdydd	Cymru
Bod yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	72	62
Bod eu cais wedi cael gwrandawriad	67	59


Gorfodi

Cafodd data anghywir ar gyfer Caerdydd ei gynnwys yn y wybodaeth. Mae wedi'i ddefnyddio i lywio Ffigurau 10 a 11 ynghyd â'r tabl perfformiad cyffredinol. Bellach, ychwanegwyd data wedi'i gywiro at y testun a'r tabl perfformiad cyffredinol, ond ni fu'n bosibl diwygio'r graffiau. Fodd bynnag, mae'r data a ddefnyddiwyd i lywio'r graffiau ond wedi'i newid rhywfaint (99%, nid 100% yn Ffigwr 10 a 89%, nid 87% yn Ffigwr 11), ac felly nid yw'n newid y ffordd mae'n edrych ormod. Bydd Swyddogion yn cysylltu ymhellach ag Uned Ddata Cymru i sicrhau bod trefniadau adrodd cadarn ar waith ar gyfer ffurflenni 2017/18.

Yn 2016-17, gwnaethom ymchwilio i 484 o achosion gorfodi o'i gymharu â 532 o achosion y llynedd.


Dros yr un cyfnod, gwnaethom ymchwilio i 99% o'r achosion gorfodi hyn o fewn 84 diwrnod. Ledled Cymru, ymchwiliwyd i 85% o fewn 84 o ddiwrnodau. Mae Ffigwr 10 yn dangos canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod ar draws pob ACLlau yng Nghymru.

Ffigwr 10: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod, 2016-17



Dros yr un cyfnod, ar gyfartaledd, cymerwyd 117 o ddiwrnodau i ni ddatrys bob achos. Cafodd 89% o'r camau gorfodi eu cymryd o fewn 180 diwrnod i ddyddiad yr achos. Fel y mae Ffigwr 11 yn dangos, dyma'r ail ganran uchaf yng Nghymru.

Ffigwr 11: Canran yr achosion gorfodi a ddatryswyd mewn 180 diwrnod, 2016-17



ATODIAD A – FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

MESUR	DA	GWEDDOL	GWELLA
Creu cynllun			
A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar gael sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Nac oes
Wrth baratoi'r CDLI, y gwriad oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflwyno gwreiddiol, mewn misoedd	<12	13-17	18+
Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eu cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Ydy		Nac ydy
Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai, mewn blynyddoedd	>5		<5
Effeithlonrwydd			
Canran y ceisiadau "mawr" a bennwyd o fewn yr amser angenrheidiol	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i bennu ceisiadau "mawr" mewn diwrnodau	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod

CYFARTALEDD Cymru	ACLI Caerdydd Y LLYNEDD	ACLI Caerdydd ELENİ
Oes	Oes	Oes
58	Dd/b	Dd/b
Ydy	Dd/b	Dd/b
2.9	5.2	3.8
59	27	31
250	266	338

MESUR	DA	GWEDDO L	GWELLA
Canran yr holl geisiadau a bennwyd o fewn yr amser angenrheidiol	>80	60.1-79.9	<60
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i bennu pob cais mewn diwrnodau	<67	67-111	112+
Ansawdd			
Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion	<5	5.1-8.9	9+
Canran apeliadau a wrthodwyd	>66	55.1-65.9	<55
Ceisiadau am gostau apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod adrodd	0	1	2+
Ymgysylltu			
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Ydy		Nac ydy
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Nac oes

CYFARTALED D Cymru	ACLI Caerdydd Y LLYNEDD	ACLI Caerdydd ELENI
87	75	84
76	79	70
Ansawdd		
11	1	3
61	63	60
0	0	0
Ymgysylltu		
Ydy	Ydy	Ydy
Oes	Oes	Oes

MESUR	DA	GWEDDOL	GWELLA
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio, y gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddi i ddilyn hynt ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhannol	Nac oes
Gorfodi			
Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (dod i benderfyniad ynghylch a dorrwyd rheolau cynllunio, ac os felly, a gawsant eu datrys, p'un a oedd angen camau gorfodi neu beidio) o fewn 84 diwrnod	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodaeth	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu y derbyniwyd cais ôl-weithredol o fewn 180 diwrnod o gychwyn yr achos (yn yr achosion hynny lle'r oedd angen gorfodi)?	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod

CYFARTALEDD Cymru	ACLI Caerdydd Y LLYNEDD	ACLI Caerdydd ELENÍ
Oes	Oes	Oes
85	97	99
74	16	6
73	88	89
201	114	117

ADRAN 1 – CREU CYNLLUN

Dangosydd	01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar gael sydd o fewn cyfnod y cynllun?	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Mae cynllun datblygu (CDLI neu CDU) ar gael ac o fewn cyfnod y cynllun	Dd/b	Nid oes cynllun datblygu ar gael (gan gynnwys lle daeth y cynllun i ben)

Perfformiad yr awdurdod	Oes
Mabwysiadwyd y CDLI ym mis Ionawr 2016. Caiff Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ei gyflwyno ym mis Hydref 2017.	

Dangosydd	02. Wrth baratoi'r CDLI, y gwyriad oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflwyno gwreiddiol, mewn misoedd	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Bwrir ymlaen â'r CDLI o fewn 12 mis o'r dyddiadau a nodwyd yn y Cynllun Cyflwyno gwreiddiol	Bwrir ymlaen â'r CDLI rhwng 12 a 18 mis o'r dyddiadau a nodwyd yn y Cynllun Cyflwyno gwreiddiol	Bwrir ymlaen â'r CDLI fwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiadau a nodwyd yn y Cynllun Cyflwyno gwreiddiol

Perfformiad yr awdurdod	Dd/b
Dd/b – CDLI wedi'i fabwysiadu erbyn hyn	

Dangosydd	03. Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eu cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	
“Da”		“Angen gwelliant”
Mae AMB i fod yn barod, ac wedi ei baratoi		Mae AMB i fod yn barod, ac nid yw wedi ei baratoi

Perfformiad yr awdurdod	Dd/b
Ar adeg ysgrifennu, cymeradwywyd AMB cyntaf gan y Cabinet ym mis Medi 2017 a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn cyfieithu i'r Gymraeg ym mis Hydref 2017.	

Dangosydd	04. Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai, mewn blynyddoedd	
“Da”		“Angen gwelliant”
Mae gan yr awdurdod gyflenwad tir tai o fwy na 5 mlynedd		Mae gan yr awdurdod gyflenwad tir tai o lai na 5 mlynedd

Perfformiad yr awdurdod	3.8
--------------------------------	-----

Mae sylwadau ar faterion cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai, wedi’u casglu ar gyfer AMB y CDLI a gwblhawyd yn ddiweddar. Cânt eu copïo isod:

TAN1/Methodoleg Weddilliol

Mae’n bwysig pwysleisio bod y Cyngor yn credu bod mwy o dir posibl ar gael i ddatblygu mewn gwirionedd na’r ffigur sy’n deillio o’r fethodoleg weddilliol anhyblyg a ragnodir yn TAN1 sydd wedi’i seilio’n unig ar ffigur tai’r CDLI yn hytrach nag ystyried cyfraddau adeiladu’r gorffennol. Yn hyn o beth, dylid nodi mai’r banc tir presennol (safleoedd â mwy na 10 o unedau) yw 24,995 o anheddau, sy’n cymharu â’r 9,998 o anheddau sy’n bodloni gofynion proses adrodd y JHLAS.

Er bod llawer o dir ar gael yn ffisegol yng Nghaerdydd, nid yw’n gymwys i’w cynnwys yn y cyfrifiad 5 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys safleoedd sy’n amodol ar arwyddo cytundeb a106 (328 o unedau) neu safleoedd gyda chaniatâd wedi’u categorio fel wedi’u cyfyngu yng nghategoriâu C3/C4 (14,629 o unedau). Nid yw’r categorïau hyn yn gymwys i gael eu cyfrif yn y JHLAS, ond gallent ychwanegu’n sylweddol (gwerth tua 4.8 mlynedd o dir) at y cyflenwad swyddogol, sef 3.6 mlynedd. Er na chaniateir mwyach, o’r blaen roedd TAN1 yn caniatáu i’r cyflenwad tir presennol gael ei gymharu â chyfraddau adeiladu blaenorol. Cyflwynwyd y fethodoleg cyfradd adeiladu blaenorol yn 1992 gan PPG3 (Cymru) i fynd i’r afael ag achosion lle nad yw’r cyfrifiad gweddilliol yn adlewyrchu’r cyflenwad yn gywir. Wrth gymharu’r gyfradd adeiladu blaenorol dros y 10 mlynedd diwethaf a’r gyfradd adeiladu 5 mlynedd ceir ffigurau cyflenwad tir o 9.6 mlynedd a 14.8 mlynedd ar gyfer Caerdydd, yn y drefn honno. Er y derbynir y gallai’r cyfnodau adeiladu hyn adlewyrchu effeithiau’r dirwasgiad, serch hynny, mae’n cynnig safbwynt defnyddiol.

Myfyrwyr

Yn hanesyddol, roedd llety myfyrwyr preifat yn gymwys i’w cynnwys yng nghyflenwad tir 5 mlynedd Caerdydd. Roedd hyn yn arfer sefydledig gan fod myfyrwyr sy’n byw mewn llety myfyrwyr preifat yn cael eu cynnwys yn y gofyniad annedd sy’n ategu’r cynllun datblygu. Mae’r math hwn o lety hefyd yn lleihau pwysau ar y sector rhent preifat traddodiadol, gan gyfrannu felly at y stoc gyffredinol. Cyflwynodd canllawiau TAN1 diwygiedig (Ionawr 2015) amod, mai dim ond anheddau o fewn y diffiniad Gorchymyn Dosbarth Defnydd C3 ellir eu cyfrif tuag at y cyflenwad. Mae hyn yn neilltuo llety myfyriwr rhag cael ei gynnwys yn y JHLAS, a ystyrir yn *Sui Generis* yn hytrach na C3. Mae’r sector wedi darparu ffynhonnell bwysig o lety yng Nghymru dros y 15 mlynedd diwethaf ac mae wedi ffynnu’n ddiweddar. I roi syniad o raddfa, roedd tua 480 o unedau myfyrwyr yn gymwys i’w cynnwys yng nghyflenwad 5 mlynedd Caerdydd yn JHLAS 2014. Rhwng 1 Ebrill 2014 a 1 Ebrill 2016, cymeradwywyd 1,699 o unedau ychwanegol (2,975 o welyau). Fel arfer, mae’r cynlluniau hyn wedi’u hadeiladu’n barod heb brofi’r oedi sy’n effeithio ar gynlluniau preswyl traddodiadol. Mae tystiolaeth bresennol yn dangos cryfder pellach y farchnad llety myfyrwyr yng Nghaerdydd.

Daeth TAN1 wedi’i ddiwygio i rym ar ôl cyflwyno CDLI Caerdydd ar gyfer Archwiliad, ac ni ragwelwyd

y newid hwn mewn Polisi gan nad oedd yn rhan o'r cynigion ymgynghori. Felly, mae nifer yr aelwydydd a amcangyfrifir o fewn y CDLI mabwysiedig, a'r gofyniad annedd dilynol (41,415) yn ystyried gofynion myfyrwyr yn byw mewn llety preifat, ond yn dechnegol ni all llety myfyrwyr newydd gyfrannu at y cyflenwad. Cafodd y mater hwn ei gydnabod gan Arolygwyr yn ystod Archwiliad y CDLI, a adroddir ym mharagraffau

4.18 a 4.19 Adroddiad yr Arolygwyr. Bydd angen rhagor o waith i fynd i'r afael â'r mater hwn o gysoni galw a chyflenwad llety myfyrwyr cyn proses adolygu'r Cynllun.

Oedi byrdymor ar Safleoedd Strategol

Ar gyfer cyfnod presennol y JHLAS (2018-2022), mae rhagolygon cwblhau gyfystyr â chyfraniad cyfunedig o 8,030 o unedau ar safleoedd strategol. Rhagwelwyd y byddai 2,302 o unedau pellach yn cael eu cwblhau cyn yr Astudiaeth, rhwng 2015 a 2017. Yn ystod proses JHLAS eleni, mae'r Cyngor wedi derbyn rhagolygon diwygiedig ar gyfer pob safle strategol yn cynrychioli cyfraniad o 5,498 dros y cyfnod 2018-2022, gan arwain at golli 2,532 o unedau o'r cyflenwad 5 mlynedd a ragwelir sy'n cyfateb i gyflenwad o tua 0.8 mlynedd. Yn yr un modd, dim ond 113 o unedau sydd wedi'u cwblhau ar safleoedd strategol hyd yn hyn, sy'n ddiffyg o 2,189 o unedau wedi'u cwblhau a ragwelwyd dros y cyfnod,

yn cynrychioli 0.7 mlynedd. Dan y dull gweddilliol, caiff unrhyw ddiffyg mewn unedau wedi'u cwblhau a ragwelwyd eu cynnwys yn y cyfrifiad (gofyniad gweddilliol), gan ei gwneud hi felly'n anoddach cyflawni cyflenwad 5 mlynedd.

Mae rhesymau dros oedi yn amrywio o safle i safle, ond yn gyffredinol mae'r dyddiadau dechrau wedi llithro ar ôl mabwysiadu. Felly, mae'r Cyngor yn ystyried bod yr oedi yma o leiaf yn rhannol gyfrifol am y diffyg cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai dros gyfnod o 5 mlynedd yng Nghaerdydd, ac mewn gwirionedd nid yw Caerdydd yn wynebu problem cyflenwad, ond her o ran darpariaeth lle nad yw'r sector datblygu yn darparu'r cyfraddau a ragwelwyd o'r blaen.

Twf yn y Boblogaeth

Mae amcangyfrifon mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn dangos bod poblogaeth bresennol Caerdydd yn 361,468 (ACB 2016). Mae hyn yn awgrymu bod twf yn y boblogaeth hyd yn hyn wedi bod yn arafach na'r hyn a amcangyfrifwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar ddata o 2011, amcangyfrifwyd y byddai'r boblogaeth yn 366,761 yn 2016 (gwahaniaeth o tua 5,300). Er bod gofyniad annedd y CDLI mabwysiedig yn parhau i fod yn is na'r hyn a nodwyd gan amcangyfrifon Llywodraeth Cymru, nid yw'r twf yn y boblogaeth sy'n ategu'r CDLI wedi digwydd eto ychwaith (gwahaniaeth o tua 4,200 o'i gymharu â ACB 2016).

Ym mis Medi 2016, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ei hamcangyfrifon poblogaeth swyddogol diweddaraf (seiliedig ar ddata o 2014) ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Dros y cyfnod 25 mlynedd, rhwng 2014 a 2039, rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu o 90,400 (25.5%) – mwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod twf Caerdydd yn is na'r hyn a nodwyd yn yr amcangyfrifon blaenorol, yn seiliedig ar ddata o 2011. Rhwng 2014 a 2036, mae twf a amcangyfrifir ar gyfer Caerdydd wedi gostwng o 27.2% (amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata o 2011) i 22.3% (amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata o 2014). Mae twf a amcangyfrifir yn y boblogaeth hefyd wedi'i ddiwygio i fod yn llai erbyn 2026, sef diwedd cyfnod y CDLI, o 412,801 i 395,679.

Mae PPW yn nodi y dylai Amcangyfrifon Aelwydydd diweddaraf fod y man cychwyn ar gyfer asesu gofynion tai. Yn hyn o beth, dylid nodi po bellaf eir i'r dyfodol, y mwyaf ansicr yw amcangyfrifon poblogaeth, ac felly wrth i'r Cynllun ddatblygu bydd yn fwyfwy pwysig i fonitro tystiolaeth newydd o

ran demograffeg fel y'i nodir mewn amcangyfrifon aelwydydd a phoblogaeth swyddogol sydd i ddod.

Safbwynt Cenedlaethol

Dylid nodi nad yw diffyg cyflenwad 5 mlynedd yng Nghaerdydd yn eithriad o'i ystyried o fewn cydestun Cymru gyfan; mae llawer o ACLlau wedi profi sefyllfaoedd tebyg o ran cyflenwad tir, ar ôl mabwysiadu CDLI. Yn 2013, 2014 a 2015 – yn y drefn honno – roedd gan 18 (72%) o ACLlau yng Nghymru lai na 5 mlynedd o gyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai. Nid yw'r sefyllfa wedi gwella dros amser, gan fod 19 ACLlau yn cofnodi cyflenwad tir llai na 5 mlynedd yn 2016. Mae cyflenwad tir cyfartalog ar draws Cymru hefyd wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn, o 4.3 mlynedd yn 2013 i 2.5 mlynedd erbyn 2016. Caiff yr anhawster eang o ran dangos cyflenwad tair 5 mlynedd ar draws ACLlau Cymru ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru sydd wedi gwneud gwaith ymchwil i'r materion ynghlwm wrth ddarpariaeth. Er yr ymddengys bod hyfywedd yn ffactor allweddol drwy'r rhan fwyaf o Gymru, mae ffactorau sylfaenol eraill yn amlwg yng Nghaerdydd, fel y disgrifir uchod.

Casgliadau

Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o resymau sylfaenol y mae'n credu y gall fod yn arwyddocaol wrth ystyried y ffigwr cyflenwad tir tai diweddaraf sydd ar gael a nodir yn JHLAS 2017. Mae'r Cyngor yn ystyried bod y ffactorau technegol hyn yn tynnu oddi wrth realiti cyflenwad llawer iachach o dir tai sy'n bodoli'n ymarferol. Ond yr her allweddol yw gallu'r sector tai i ddarparu cyfraddau adeiladu yn effeithiol a hyrwyddir yn ystod proses archwilio'r CDLI. Dylid ystyried y ffactorau hyn wrth ychwanegu at y ffigwr cyflenwad 5 mlynedd at ddiben dod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio.

Ystyrir bod y Cyngor yn rhagweithiol wrth ddilyn y dull galluogi a nodir gan Lywodraeth Cymru, a chynhelir trafodaeth gadarnhaol â'r sector datblygu i gyflawni amcanion ar y ddwy ochr, gan gynnwys gweithredu dull a arweinir drwy gynllunio. Bydd adolygu tystiolaeth newydd yn barhaus drwy'r broses AMB yn helpu i sicrhau bod y sefyllfa o ran cyflenwad tir yn parhau i gael ei monitro'n agos.

ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD

Dangosydd	05. Canran y ceisiadau “mawr” a bennwyd o fewn yr amser angenrheidiol	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Targed i’w feincnodi	Targed i’w feincnodi	Targed i’w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	31
<p>Mae hyn yn gynydd cadarnhaol iawn o’r ffigur o 8% ar gyfer 2014/15 ac yn uwch na ffigur 2016/17 ar gyfer 2015/16, sy’n adlewyrchu’r gwaith presennol ar wella perfformiad.</p> <p>O ran cyd-destun Cymru gyfan, mae Caerdydd yn prosesu nifer fawr o geisiadau mawr, cymhleth. Mae llawer iawn o’r ceisiadau hyn yn hynod gymhleth, ac yn aml yn gorfod dilyn Rheoliadau AEA a llofnodi Cytundebau Adran 106 hirfaith sydd, mewn rhai achosion, yn gofyn am drafodaethau helaeth rhwng y Cyngor, tirfeddianwyr a datblygwyr.</p> <p>Fodd bynnag, mae Caerdydd yn gwbl ymroddedig i wneud gwelliannau i'r Gwasanaeth Cynllunio gyda’r amrywiaeth o fesurau a nodir yng Nghynllun Busnes y Gwasanaeth Cynllunio yn nodi dull cynhwysfawr o fynd i’r afael â’r heriau sylweddol mewn cysylltiad â chyfaint a chymhlethdod y llwyth gwaith.</p>	

Dangosydd	06. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i bennu ceisiadau “mawr” mewn diwrnodau	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Targed i’w feincnodi	Targed i’w feincnodi	Targed i’w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	338
<p>Mae’r dangosydd hwn yn anochel yn dangos y nifer fawr o geisiadau mawr, cymhleth y penderfynwyd arnynt yng Nghaerdydd.</p> <p>Wrth eu cyflwyno, mae ceisiadau mawr yn aml yn gofyn am gyfraniad helaeth gan Uwch Swyddog er mwyn sicrhau y gellir argymhell y ceisiadau mewn modd cadarnhaol. Dechreuir y ‘dull galluogi’ hwn cyn cyflwyno'r cais, ond yn anochel gall cynigion mawr arwain at drafodaethau hir a’r angen canlyniadol am gynllunio diwygiedig, gwybodaeth/astudiaethau ychwanegol, sydd hefyd yn sbarduno rhagor o gyfnodau ymgynghori.</p> <p>Mae trafod cytundebau Adran 106, sydd wedi sicrhau cyfraniadau gwerth miloedd o bunnoedd at y ddinas, hefyd yn cymryd amser i ddod i gasgliad, a gall sbarduno angen ychwanegol ar gyfer asesiadau hyfywedd.</p> <p>Ar y cyfan, ystyrir bod y Gwasanaeth wedi ymgorffori’n llawn y dull galluogi fel a nodir yn Neddf Cynllunio (Cymru) ac mae’n ceisio dod i benderfyniad ynghylch ceisiadau mewn modd amserol sy’n</p>	

gwbl gyson â'r fframwaith polisi. Yn hyn o beth, o'i ystyried ar ei ben ei hun, nid yw'r dangosydd hwn o reidrwydd yn adlewyrchu mesur effeithlonrwydd perfformiad, gan ei fod ond yn ystyried yr amser a gymerwyd yn hytrach na gwerth ychwanegol, sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac ansawdd a chadernid y penderfyniad.

Dangosydd	07. Canran yr holl geisiadau a bennwyd o fewn yr amser angenrheidiol	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Pennir mwy na 80% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol	Pennir rhwng 60% a 80% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol	Pennir llai na 60% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol

Perfformiad yr awdurdod	84
<p>Mae hyn yn gynydd cadarnhaol o'r ffigur o 65% ar gyfer 2014/15 a'r ffigur o 75% ar gyfer 2015/16 sy'n adlewyrchu'r gwaith presennol ar wella perfformiad ac yn golygu bod perfformiad yn y categori 'da'.</p> <p>Ymhellach, o ran cyd-destun, mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull o geisio sicrhau ansawdd derbyniol mewn ceisiadau yn hytrach na gwrthod ceisiadau a all fod yn dderbyniol oni bai am un diwygiad efallai. Ystyrir hyn yn ddull dilys yn dal i fod yn unol â'r agenda cynllunio cadarnhaol ond a fydd yn effeithio'n anochel ar benderfyniadau o ran amseroedd targed.</p> <p>Mae gwaith yn parhau i geisio gwella perfformiad, ond mae nifer fawr y ceisiadau ynghyd â'r adnoddau sy'n crebachu yn golygu bod hyn yn ymarfer heriol.</p>	

Dangosydd	08. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i bennu pob cais mewn diwrnodau	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Llai na 67 diwrnod	Rhwng 67 a 111 diwrnod	112 diwrnod neu fwy

Perfformiad yr awdurdod	70
<p>Mae'r perfformiad hwn yn well na'r ffigur ar gyfer 2014/15 sef 80.6 o ddiwrnodau a'r ffigur ar gyfer 2015/16 sef 79 o ddiwrnodau. Mae hefyd yn is na chyfartaledd Cymru, sef 76 o ddiwrnodau. O ystyried nifer fawr y ceisiadau a brosesir (mae Caerdydd yn dod i benderfyniad ar nifer uchaf y ceisiadau yng Nghymru), mae hyn yn rhoi pwysau unigryw ar y Gwasanaeth Cynllunio. Ystyrir bod y perfformiad canlyniadol yn cynrychioli deilliant gwych, yn enwedig gan fod llwyth achosion cyfartalog Swyddogion Achos Rheoli Datblygu yn eithaf swmpus o'i gymharu â Gwasanaethau Cynllunio eraill.</p> <p>Er enghraifft, cafodd y llwyth achosion cyfartalog ei asesu ar draws y Dinasoedd Craidd yn 2015/16 gyda Chaerdydd yn cyflawni cyfartaledd o 186 o geisiadau fesul Swyddog.</p> <p>Mae hyn yn cymharu â 70 yn Newcastle, 105 ym Mryste, 109 yn Leeds, 110 yn Sheffield. Hi sydd â'r ail gyfradd effeithlonrwydd orau o'r holl Ddinasoedd Craidd, ail yn unig i Lerpwl sydd â llwyth gwaith cyfartalog o</p>	

197.

Er bod hyn yn tynnu sylw at wasanaeth hynod effeithlon, mae hefyd yn cadarnhau'r pwyntiau a wnaed yn Adran 2 a 3 ynghylch yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth o ran cydbwysu llwyth gwaith ac adnoddau.

ADRAN 3 - ANSAWDD

Dangosydd	09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Llai na 5% o benderfyniadau	Rhwng 5% a 9% o benderfyniadau	9% neu fwy o benderfyniadau

Perfformiad yr awdurdod	3
<p>Ystyrir hyn yn ganlyniad gwych ac mae'n is o lawer na chyfartaledd Cymru ac yn dod o dan y categori perfformiad 'da'.</p> <p>Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi cael hyfforddiant priodol ac mae busnes y Pwyllgor Cynllunio yn dilyn y protocolau sydd ar waith yn gyson. Mae Swyddogion Achos yn adrodd i Aelodau Pwyllgor sy'n cael eu hategu gan gynlluniau a ffotograffau a ddangosir ar sgriniau. Gall Aelodau Pwyllgor ofyn i ymweld â safle cyn ystyried cynigion a all helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r safle/cynnig, ond gall hyn hefyd ychwanegu oedi wrth ddod i benderfyniad ar y cais gan y byddai'r cynnig yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf (4 wythnos yn ddiweddarach fel arfer).</p>	

Dangosydd	10. Canran yr apeliadau a wrthodwyd	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Mae mwy na 66% (dwy ran o dair) o benderfyniadau cynllunio wedi eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl	Mae rhwng 55% a 66% o benderfyniadau cynllunio wedi eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl	Mae llai na 55% o benderfyniadau cynllunio wedi eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl

Perfformiad yr awdurdod	60
<p>Ar y cyfan yng Nghaerdydd, gwnaed 1.3 apêl fesul 100 o geisiadau a gafwyd, sydd yn is na ffigur 2015/16 o 1.5 a ffigur 2014/15 o 1.4. Mae hyn yn cymharu â 2 apêl fesul 100 o geisiadau a gafwyd ledled Cymru.</p> <p>O'r 47 o apeliadau, gwrthodwyd 60%, sydd ychydig yn is na'r targed o 66% (dwy ran o dair o benderfyniadau'n cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl, ond o fewn y categori "gweddol"). Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol fater sy'n arbennig o berthnasol i Gaerdydd – Y mater o ystyried niferoedd uchel o geisiadau am dai amlfeddiannaeth.</p> <p>Yn dilyn pryderon o ran problemau amwynder ac effaith gronnol, mae nifer o geisiadau wedi'u gwrthod a'u colli ar apêl. Mae Canllawiau Cynllunio Ategol wedi ceisio rhoi rhagor o eglurder, yn enwedig o ran ystyriaethau effaith gronnol, ond nid yw penderfyniadau'r Arolygaeth bob amser yn cefnogi penderfyniadau a ystyriwyd gan y Cyngor.</p>	

Dangosydd	11. Ceisiadau am gostau apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod adrodd	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Ni ddyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod ar apêl	Dyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod mewn un achos apêl	Dyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod mewn dau neu fwy o achosion apêl

Perfformiad yr awdurdod	0
Ni ddyfarnwyd unrhyw gostau yn erbyn y Cyngor ar apêl, sy'n golygu bod perfformiad yn y categori 'da'.	

ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

Dangosydd	12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	
"Da"		"Angen gwelliant"
Gall aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio		Ni all aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio
Perfformiad yr awdurdod	Ydy	
Mae Protocol y Pwyllgor Cynllunio yn gosod trefniadau sy'n llywodraethu'r modd y gall y cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio a mynychu ymweliadau safle a wneir gan y Pwyllgor.		

Dangosydd	13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	
"Da"		"Angen gwelliant"
Gall aelodau'r cyhoedd geisio cyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd		Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael
Perfformiad yr awdurdod	Oes	
Mae cyngor i'r cyhoedd ar gael gan staff Derbynfa Neuadd y Sir, Swyddogion o'r Adran Bwyllgorau a hefyd Swyddogion Cynllunio.		

Dangosydd	14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio, y gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddi i ddilyn hynt ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Mae pob dogfen ar gael ar-lein	Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, rhaid ceisio dogfennau eraill yn uniongyrchol	Ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein
Perfformiad yr awdurdod	Oes	
Mae tudalennau Cynllunio gwefan y Cyngor yn cynnwys manylion cyfoes am bob cais cynllunio byw a gellir olrhain hynt ceisiadau unigol ynghyd â'r gallu i weld ymatebion i ymgynghoriadau. Caiff aelodau'r cyhoedd wybod am y cyfleusterau hyn mewn llythyrau ymgynghori a anfonir allan i roi gwybod i'r cyhoedd am geisiadau newydd.		

ADRAN 5 – GORFODI

Dangosydd	15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (dod i benderfyniad ynghylch a dorrwyd rheolau cynllunio, ac os felly, a gawsant eu datrys, p'un a oedd angen camau gorfodi neu beidio) o fewn 84 diwrnod	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	99
<p>O gyfanswm o 484 o achosion gorfodi, ymchwiliwyd i 99% ohonynt o fewn 84 diwrnod. Deuir i'r ffigwr hwn yn seiliedig ar y dehongliad bod 'ymchwiliwyd' yn golygu camau'n cael eu cymryd gan yr ACLI i benderfynu pa un a dorrwyd rheolau cynllunio. Serch hynny, nid yw o reidrwydd yn golygu bod penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud neu fod yr achos wedi'i ddatrys.</p> <p>Mae'r data'n dangos bod perfformiad yn debyg i'r Awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru ac yn wella na'r perfformiad o 97% yn 2015-16 a 75% yn 2014-2015.</p> <p>Pan fo dangosyddion gorfodi wedi bod yn destun adolygiad gan y Gymdeithas Genedlaethol Gorfodi Cynllunio (CGGC), nodwyd eisoes fod yna ddiffyg eglurder ynghylch ystyr 'ymchwiliad' a pha un a yw'n cynnwys penderfyniad ffurfiol ai peidio. Bwriedir egluro hyn yn y dyfodol.</p>	

Dangosydd	16. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodaeth	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	6
<p>O gyfanswm o 484 o achosion gorfodi, mae wedi cymryd cyfartaledd o 6 diwrnod i 'ymchwilio'. Deuir i'r ffigwr hwn yn seiliedig ar y ffaith bod 'ymchwiliwyd' yn golygu camau'n cael eu cymryd gan yr ACLI i benderfynu pa un a dorrwyd rheolau cynllunio, ac yna wedi cymryd camau pellach i geisio datrys yr achos.</p> <p>Mae'r data'n dangos bod y perfformiad hwn yn well na pherfformiad 2015-16, sef 16 diwrnod. Pan fo dangosyddion gorfodi wedi bod yn destun adolygiad gan CGGC, nodwyd eisoes fod yna ddiffyg eglurder ynghylch ystyr 'ymchwiliad' a pha un a yw'n cynnwys yr amser i gyrraedd penderfyniad ffurfiol ai peidio. Awgrymwyd y caiff y dangosydd hwn ei ddileu.</p>	

Dangosydd	17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu y derbyniwyd cais ôl-weithredol o fewn 180 diwrnod o gychwyn yr achos (yn yr achosion hynny lle'r oedd angen gorfodi)	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	89
<p>Pan fo camau gorfodi ffurfiol wedi'u cymryd, mae'r data'n dangos bod 89% o achosion wedi'u datrys o fewn 180 diwrnod. Dyma'r ail berfformiad gorau o'r holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac mae'n cyfateb i berfformiad tebyg o 88% yn 2015-16 a 82% yn 2014-15.</p> <p>Pan fo dangosyddion gorfodi wedi bod yn destun adolygiad gan CGGC, nodwyd eisoes y gellid dileu'r dangosydd hwn gan nad yw o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol i ddatrys achos, yn dilyn gweithredu camau gorfodi.</p>	

Dangosydd	18. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	117
<p>Mae'r data hwn yn dangos, pan benderfynwyd 'cymryd camau gorfodi', mae wedi cymryd 117 diwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn yn debyg i'r ffigwr o 114 diwrnod yn 2015-2016, ond mae'n llawer gwell na'r cyfartaledd yn 2014-2015, sef 148 diwrnod.</p> <p>Pan fo dangosyddion gorfodi wedi bod yn destun adolygiad gan CGGC, nodwyd eisoes y gellid dileu'r dangosydd hwn.</p>	

ADRAN 6 – DANGOSYDDION DATBLYGU CYNALIADWY

Diben y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Caiff y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn amcanion cynaliadwyaeth cynllunio cenedlaethol, sydd wedi eu gosod ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid rôl a chwmpas y system gynllunio o ran cyflawni amcanion ehangach. Bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol hefyd i awdurdodau cynllunio lleol ddeall mwy am ddeilliannau'r system gynllunio a bydd yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Adroddiadau'r Awdurdod	Ar gyfer 2016/17, casglwyd data llawn ar gyfer 2 o'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, DC6 a DC7. Casglwyd data yn Chwarter 2 a 4 ar gyfer DC4 ac yn Chwarter 4 ar gyfer DC3. Adlewyrchodd hyn waith a oedd yn cael ei wneud i roi prosesau ar waith i gasglu data'n effeithiol ar gyfer y dangosyddion sy'n weddill.
Ar gyfer 2017/18, mae prosesau bellach ar waith i gasglu data ar gyfer bob un o'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy sy'n caniatáu i ffurflen lawn gael ei dychwelyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ym mis Ebrill 2018. Yn hyn o beth, croesewir y penderfyniad i gasglu data yn flynyddol yn hytrach nag yn chwarterol, gan y bydd hyn yn osgoi'r amrywiadau anochel a grëir o gofnodi data dros gyfnodau byrrach a gellir ei alinio'n agosach â'r lluo o ddata presennol a gesglir yn flynyddol.	

Dangosydd	DC1. Y gofod llawr (metrau sgwâr) lle rhoddwyd ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio am ddatblygiad economaidd newydd ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn.
Wedi'i roi (metrau sgwâr)	
Data'r awdurdod	-
Wedi'i wrthod (metrau sgwâr)	
Data'r awdurdod	-
Heb ei gasglu ar gyfer 2016/17 – Gweler y testun yn y cyflwyniad.	

Dangosydd	DC2. Caniatâd cynllunio a roddwyd am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.
Caniatâd wedi'i roi (nifer y ceisiadau)	
Data'r awdurdod	-
Caniatâd wedi'i roi (cynhyrchu ynni MW)	
Data'r awdurdod	-
Heb ei gasglu ar gyfer 2016/17 – Gweler y testun yn y cyflwyniad.	

Dangosydd	DC3. Nifer yr aneddiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.
Tai marchnad (nifer yr unedau)	
Data'r awdurdod	4,362
Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)	
Data'r awdurdod	1905
<p>Mae'r data hwn yn ymwneud â chwater 4 2016/17 yn unig, ond mae'n dangos bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn darparu swm sylweddol o dir ar gyfer aneddiadau newydd er mwyn bodloni'r angen a ddangosir am dai yn y ddinas.</p> <p>Mae nifer a chyfran yr aneddiadau newydd y rhoddwyd caniatâd iddynt i fod yn dai fforddiadwy hefyd yn sylweddol a bydd yn helpu i fodloni'r angen brys a ddangosir am dai fforddiadwy yn y ddinas.</p>	

Dangosydd	DC4. Caniatâd cynllunio a roddwyd ac a wrthodwyd am ddatblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 yn ystod y flwyddyn.
Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau amhreswyl) NA fodlonodd pob prawf TAN 15 y RHODDWDYD caniatâd iddynt	
Data'r awdurdod	0
Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau amhreswyl) NA fodlonodd pob prawf TAN 15 y GWRTHODWDYD caniatâd iddynt ar sail perygl llifogydd	
Data'r awdurdod	6
Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau amhreswyl) a FODLONODD bob prawf TAN 15 y RHODDWDYD caniatâd iddynt	
Data'r awdurdod	627
<p>Mae'r data yn ymwneud â Chwarter 2 a 4 2016/17 ac mae'n dangos bod polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ymwneud â perygl llifogydd yn gweithredu'n effeithiol, ac mae camau lliniaru perygl llifogydd yn cael eu hystyried yn effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch cynllunio.</p>	

Dangosydd	DC5. Arwynebedd tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio am ddatblygiad newydd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir glas yn ystod y flwyddyn.
Tir a ddatblygwyd eisoes (hectarau)	
Data'r awdurdod	-
Tir glas (hectarau)	
Data'r awdurdod	-
Heb ei gasglu ar gyfer 2016/17 – Gweler y testun yn y cyflwyniad.	

Dangosydd	DC6. Arwynebedd mannau agored cyhoeddus (ha) fyddai'n cael ei golli a'i ennill o ganlyniad i ganiatâd cynllunio a roddwyd yn ystod y chwarter.
Mannau agored a gollwyd (hectarau)	
Data'r awdurdod	8
Tir agored a enillwyd (hectarau)	
Data'r awdurdod	9
<p>Mae'r data'n dangos bod llawer mwy o fannau agored a enillwyd drwy waith datblygu newydd nag a gollwyd drwy ddatblygu gan arwain at gynnydd net mewn mannau agored yn y ddinas yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg presennol o fannau agored ar draws y ddinas a bydd yn gwella iechyd a llesiant trigolion.</p>	

Dangosydd	DC7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) y cytunwyd arnynt o ddatblygiadau newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y chwarter ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.
Enillwyd drwy gytundebau Adran 106 (£)	
Data'r awdurdod	12,481,326
Enillwyd drwy Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)	
Data'r awdurdod	0
<p>Mae'r data'n dangos bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi sicrhau cyfraniadau ariannol sylweddol gan ddatblygiadau newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol yn cael ei ddarparu i gefnogi datblygiadau newydd ar draws y ddinas ac i liniaru eu heffeithiau.</p>	